# Rhannwch
# Let's share

gogleddcymru_northeastwales

NthEastWales

@NthEastWales

North East Wales

twristiaeth@sirddinbych.gov.uk
tourism@denbighshire.gov.uk

www.gogleddddwyraincymru.cymru
www.northeastwales.wales

Canolfannau Croeso
Tourist Information Centres

Gogledd | North 01745 344515
De | South 01978 860828

dylunio/design White Fox 01352 741069 www.thinkwhitefox.com

**Ffotograffau / Photography**
© Crown copyright (2019) Visit Wales / © Hawlfraint y Goron (2019) Croeso Cymru, White Fox, Laurence Crossman-Emms, David White

Cyhoeddwyd gan Dîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau Cyngor Sir Ddinbych
Published by Denbighshire County Council's Tourism, Marketing and Events Team

## Tref i bob diwrnod


Nid Rhuthun yw'r unig dref yn Sir Ddinbych gyda llwybr ei hun. Mae saith llwybr arall – pob un yn llawn o ddiddordeb hanesyddol. Ond pob un yn wahanol iawn, gyda'r gobaith y byddwch yn darganfod hynny dros eich hunain. Cyn belled â bod gennych wythnos neu ddwy arall i'w sbario.

## A town for every day

Ruthin isn't the only town in Denbighshire with its very own trail. There are seven others – all packed with historic interest. But all very different, as we hope you'll discover for yourself. Just as long as you have another week or so to spare.

Ewch i Rhuthun i weld yr oriel celfyddydau cymhwysol gorau yng Nghymru, Llangollen am ei rheilffordd stêm a'i chelfyddyd bywiog, Corwen i weld cofeb un o arwyr mwyaf Cymru a Dinbych am ei chastell ar ben y bryn a muriau tref atgofus.

Ewch i'r Rhyl ar gyfer ei phromenâd a thair milltir o dywod euraidd, Prestatyn ar gyfer dechrau Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, Rhuddlan am ei chastell ar lan yr afon a Llanelwy i weld y gadeirlan hynafol leiaf ym Mhrydain.




Visit Ruthin for the best applied arts gallery in Wales, Llangollen for its steam railway and thriving arts scene, Corwen for a stirring memorial to Wales's greatest hero and Denbigh for its hilltop castle and evocative town walls.

Visit Rhyl for its promenade and three miles of golden sands, Prestatyn for the start of Offa's Dyke Path National Trail, Rhuddlan for its stupendous riverside castle and St Asaph for the smallest ancient cathedral in Britain.

## 5 Taith

Trefi marchnad prysur wedi'u hamgylchynu gan un o'r tirweddau mwyaf prydferth a ddiogelir yng Nghymru. Morlin trawiadol. Atyniadau treftadaeth byd-enwog a byd celfyddydol cyffrous. Bwyd a diod bendigedig.

Mae cymaint yn digwydd yn Sir Ddinbych fel ei bod yn anodd gwybod lle i ddechrau. Felly rydym ni wedi creu pum taith wahanol i chi archwilio.

Beth bynnag eich hwyliau neu'ch hoffter, mae yna daith sy'n berffaith i chi – sy'n cynnwys llwybrau arfordirol syfrdanol, tirnodau cefn gwlad, cadarnleoedd tyrog, trysorau diwylliannol a chyrchfannau coginiol.

Codwch gopi o'r daflen 5 Taith neu llwythwch hi i lawr ar ein gwefan.

www.gogleddddwyraincymru.cymru

## 5 Journeys


Bustling market towns surrounded by one of the most beautiful protected landscapes in Wales. A spectacular coastline. World-famous heritage attractions and a buzzing arts scene. Delicious food and drink.


There's so much going on in Denbighshire that it's hard to know where to start. So we've created a set of five different journeys for you to experience.

Whatever your mood or personal passion, there's a route that's right for you – taking in epic coastal paths, countryside landmarks, towering fortresses, cultural treasures or culinary destinations along the way.

Pick up the 5 Journeys leaflet or download it from our website.

www.northeastwales.wales





# Rhuthun
# Ruthin

## llwybr y dref
## town trail

sir ddinbych
denbighshire

# Darganfod Rhuthun

Mae awdur a cyn-chadeirydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Simon Jenkins, yn disgrifio Rhuthun fel "un o drefi bychain mwyaf swynol Cymru". Wrth ddilyn llwybr cylchol y dref fe welwch pam ei fod yn dweud hynny.

Dechreuwch y llwybr yn llifddolydd Cae Ddôl, lle bydd yn eich arwain ar daith bensaernïol hynod ddiddorol, o'r tŷ pren trefol hynaf yng Nghymru i ganolfan grefftau hynod drawiadol a chyfoes sydd wedi ennill gwobrau lu.

Bydd y daith yn cymryd tua 90 munud. Ond dylech ganiatáu ychydig mwy o amser rhag ofn gan ein bod yn sicr na fydd modd i chi basio'r 10 safle arbennig ar ein map heb gymryd golwg mwy manwl arnynt.

Byddwch eisiau stopio i edmygu – neu fynd i mewn. Ac rydych yn siŵr o gael eich temtio gyda'r siopau, tafarndai, bwytai a chaffis ar y ffordd. Felly, arhoswch cyn hired ag y dymunwch.



# Exploring Ruthin

Writer and former National Trust chairman Simon Jenkins describes Ruthin as "the most charming small town in Wales". This circular town trail will help you understand why.

Beginning at the water meadows of Cae Ddôl, it takes you on a fascinating architectural journey from the oldest timbered town house in Wales to a strikingly contemporary award-winning craft centre.

The walk will take about 90 minutes. But you'd better allow a bit longer. Because we bet you won't just stroll past the 10 special sites marked on our map.

You'll want to stop, admire – or go inside. And you're bound to be tempted by the shops, pubs, restaurants and cafés en route. So stay as long as you like.





## Beth sy'n ei wneud yn arbennig?

Mae 'na hud yn perthyn i Rhuthun. Mae'n rhywbeth i'w wneud â'r ffordd y mae'r holl strydoedd yn dueddol o arwain yn ôl i ben y bryn ac i Sgwâr Sant Pedr – yn sicr un o'r lleoedd harddaf ar gyfer marchnad ym Mhrydain.

Mae llwyth o adeiladau eiconig sy'n creu olygfa braf wrth i chi symud o gwmpas y dref: murfylchau Castell Rhuthun, tŵr Carchar Rhuthun, meindwr Eglwys San Pedr. Ac yna cip o olygfeydd godidog o gefn gwlad cyfagos.

Ond mae mwy i Rhuthun na thref o bensaernïaeth hynafol yn unig. Mae'n dref farchnad go iawn sy'n dal i fod yn llawn bywyd yn yr 21ain ganrif – ac mae ei statws "Cyfeillgar i Goetsis" yn ei wneud yn boblogaidd gyda grwpiau o bob maint.

Ewch i www.gogleddddwyraincymru.cymru

## What makes it special?

There's a magic about Ruthin. It's something to do with the way all the streets seem to lead back to hilltop St Peter's Square – surely one of Britain's loveliest market places.

Something to do with the iconic buildings that break the skyline as you move around the town: the battlements of Ruthin Castle, the tower of Ruthin Gaol, the spire of St Peter's Church. Something about the sudden spectacular views of surrounding countryside.

But Ruthin isn't just an architectural time capsule. It's a real market town that's still buzzing in the 21st century – and its official "Coach Friendly" status makes it popular with groups of all sizes.

Visit www.northeastwales.wales

## Ble awn ni nesaf?

Dylai siopau, bwytai, orielau a thai hanesyddol Rhuthun fod yn fwy na digon i'ch cadw'n brysur. Ond os ydych chi'n penderfynu symud ymlaen, yna mae rhai o atyniadau mwyaf blaenllaw Gogledd Cymru ychydig filltiroedd i ffwrdd.

## Where shall we go next?

The shops, restaurants, galleries and historic houses of Ruthin should be more than enough to keep you busy. But if you do decide to move on, you'll find some of the leading attractions of North Wales just a few miles away.

### Eglwys Gadeiriol Llanelwy

Yn eglwys gadeiriol hynafol leiaf Prydain a chartref y Beibl Cymraeg cyntaf ceir stafell de a'i siop anrhegion.

www.stasaphcathedral.wales 01745 582245



### St Asaph Cathedral

Britain's smallest ancient cathedral and home of the first Welsh Bible has its own tearoom and gift shop.

www.stasaphcathedral.wales 01745 582245

### Castell Dinbych

Caer fawr o'r 13eg ganrif gyda chanolfan ymwelwyr eco-gyfeillgar a hanner milltir o furiau tref.

www.cadw.llyw.cymru 03000 252239



### Denbigh Castle

Imposing 13th century fortress with an eco-friendly visitor centre and half a mile of town walls.

www.cadw.gov.wales 03000 252239

### Rheilffordd Llangollen

Ewch ar stêm trwy Ddyffryn trawiadol Dyfrdwy ar yr unig reilffordd treftadaeth lled safonol yng Ngogledd Cymru.

www.llangollen-railway.co.uk 01978 860979



### Llangollen Railway

Huff and puff through the stunning Dee Valley on the only standard gauge heritage railway in North Wales.

www.llangollen-railway.co.uk 01978 860979

# 1 Cae Ddôl

Mae'n siŵr eich bod chi ar bigau drain eisiau dechrau'r llwybr hwn o amgylch un o drefi bychain mwyaf diddorol a phrydferth Cymru. Ond peidiwch â rhuthro i ffwrdd eto. Mae Cae Ddol, y parc bach hyfryd y tu ôl i chi, yn werth ei weld. Ewch am dro ar lan yr Afon Clwyd wrth iddi ymdroelli drwy'r dolydd dŵr naturiol. Gwyliwch yr hwyaid a'r elyrch ar y llyn. Ac os oes gennych chi blant, ewch â nhw i'r iard chwarae neu'r parc sglefrio.

**Yna, unwaith yr ydych yn barod, ewch ymlaen i Heol Clwyd o'r maes parcio a throwch i'r dde.**



# 1 Cae Ddôl

No doubt you're itching to start this trail around one of Wales's most beautiful and interesting small towns. But don't rush off just yet. Cae Ddôl, the lovely little park behind you, is well worth a look. Stroll beside the River Clwyd as it winds its way through the natural water meadows. Watch the ducks and swans on the lake. And if you have kids in tow, take them to the playground or the skate park.

**Then, when you're ready, enter Clwyd Street from the car park and turn right.**

# 2 Carchar Rhuthun

Mae'r "Cyweirdy", lle roedd y crwydriaid a'r di-waith yn cael eu rhoi ar waith wedi bodoli ar waelod Stryd Clwyd ers 1654. Adeiladwyd yr adain arddull-Pentonville a digroeso yng nghefn y cwrt ym 1868, a dyma'r unig un ym Mhrydain sydd ar agor i'r cyhoedd. Gallwch archwilio'r holl dyllau a holltau iasol, a chanfod beth oedd y carcharorion yn ei fwyta (grual, grual a mwy o rual) a chlywed am y cosbau a ddioddefwyd ganddynt sy'n siŵr o godi ias arnoch. Gallwch hyd yn oed gael cipolwg yng nghell y dyn a gondemniwyd os ydych yn ddigon dewr!

@ruthingaol

**Trowch i'r dde i Upper Clwyd Street a pharatowch eich hunain am ddringfa byr a serth.**



# 2 Ruthin Gaol

A "House of Correction", where vagabonds and the unemployed were put to work, has stood at the bottom of Clwyd Street since 1654. The forbidding Pentonville-style wing at the back of the courtyard, the only one in Britain open to the public, was built in 1868. You can explore its creepy nooks and crannies, find out what the prisoners ate (gruel, gruel and more gruel) and shudder at the punishments they suffered. You can even take a peek in the condemned man's cell, if you're brave enough.

@ruthingaol

**Fork right into Upper Clwyd Street and get ready for a short, sharp climb.**

# 3 Yr Hen Lys

O'ch blaen mae'r Hen Lys gyda ffrâm bren odidog, a adeiladwyd oddeutu 1421 yn lle adeilad a gafodd ei losgi gan yr ymladdwr rhyddid Cymreig, Owain Glyndŵr. Bellach mae'n ganolbwynt cymunedol sy'n arddangos hanes yr adeilad ac yn cynnwys rhaglen faith o arddangosfeydd.

Gerllaw mae craig fawr o'r enw Maen Huail, lle honnir fod y Brenin Arthur wedi dienyddio ei elyn.

www.theoldcourthouse.wales



# 3 The Old Courthouse

Ahead of you is the magnificent half-timbered Old Courthouse, built about 1421 to replace a building burned down by Welsh freedom fighter Owain Glyndŵr. Now it's a community hub hosting displays about the building's history and a busy programme of exhibitions.

Nearby is a huge stone called Maen Huail, upon which King Arthur is said to have beheaded a love rival.

www.theoldcourthouse.wales

# 4 Nantclwyd y Dre

Mae Stryd y Castell yn llawn tai cyfnod ysblennydd. Y gorau o'r rhain yw Nantclwyd y Dre, y tŷ tref pren hynaf yng Nghymru. O tua 1435, bu dan feddiannaeth barhaol am fwy na pum canrif - cafodd y portsh flaen eiconig ei ychwanegu gan Eubule Thelwell ym 1693. Mae'r saith ystafell wedi'u hatgyweirio'n rhagorol yn dweud hanes "Saith Oes" Nantclwyd a'r bobl oedd yn byw drwy'r oesau. Cofiwch fynd am dro hamddenol o amgylch Gardd yr Arglwydd, a grybwyllwyd am y tro cyntaf ym 1282, ac a fu unwaith yn berllan a gardd cegin ar gyfer Castell Rhuthun sydd drws nesaf.

@nantclwydydre



# 4 Nantclwyd y Dre


Castle Street is packed with splendid period houses. The jewel in the crown is Nantclwyd y Dre, the oldest timbered town house in Wales. From about 1435, it was continually occupied for more than five centuries – the iconic front porch was added by Eubule Thelwell in 1693. Seven superbly restored rooms together tell the story of Nantclwyd's "Seven Ages" and the people who lived through them. Don't miss a serene stroll around the fully restored Lord's Garden, first mentioned in 1282 and once an orchard and kitchen garden for Ruthin Castle next door.

@nantclwydydre

# 5 Castell Rhuthun

Mae Castell Rhuthun yn wahanol i'r hyn mae'n ymddangos. Nid yw'r adeilad tywodfaen coch wirioneddol yn ganoloesol. Cafodd ei adeiladu ym 1826 gydag estyniad ym 1848-52 gan y pensaer Henry Clutton mewn arddull darluniadwy gothig. Ond roedd rhywbeth llawer hŷn oddi tano. Mae'r castell gwreiddiol yn dyddio'n ôl i 1277. Cerddwch drwy'r porth i'r safle sydd bellach yn westy a sba moethus (mae croeso i bawb) a throwch i'r dde i archwilio'r adfeilion.

**Ewch yn ôl rhan o'r ffordd i lawr Stryd y Castell a throwch i'r dde ar Stryd y Llys.**



# 5 Ruthin Castle

Ruthin Castle isn't quite what it seems. The immense red sandstone building is only pretending to be medieval. It was built in 1826 and extended in 1848-52 by architect Henry Clutton in the Picturesque Gothic style. But something much older was underneath. The original castle dates all the way back to 1277. Walk through the gateway into the grounds of what is now a luxury hotel and spa (they won't mind) and turn right to explore the evocative ruins.

**Retrace your steps part way down Castle Street and turn right into Record Street.**

# Llwybr y dref

**Pellter** 1.5 milltir / 2.4 km

**Pa mor anodd yw'r llwybr?** Mae rhai rhannau serth ac ar i fyny

**Amser yn cerdded** 90 munud

**Man cychwyn** Maes parcio Cae Ddôl LL15 1HN

**Cludiant cyhoeddus** Traveline Cymru 0800 464 0000, Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol 03457 484950

# Town trail

**Distance** 1.5 miles / 2.4 km


**Difficulty** Some quite steep uphill sections

**Walking time** 90 minutes

**Start point** Cae Ddôl car park LL15 1HN

**Public transport** Traveline Cymru 0800 464 0000, National Rail Enquiries 03457 484950

# Rhuthun
# Ruthin




**www.gogleddddwyraincymru.cymru www.northeastwales.wales**

## Tra eich bod yn cerdded....

Cadwch lygad allan am y tyllau sbïo sydd ar wasgar drwy'r strydoedd – maent yn rhan o Lwybr Celf Rhuthun. Byddwch hefyd yn gweld llawer o godau QR. Sganiwch nhw i mewn i'ch ffôn symudol i gael gwybod mwy, diolch i brosiect Wici Rhuthun am y wybodaeth.

## While you're walking....

Keep an eye out for the spy holes scattered through the streets – they're part of the Ruthin Art Trail. You'll also see lots of QR codes. Scan them into your mobile to find out more thanks to the Wiki Ruthin project.

# 6 Llyfrgell Rhuthun

Peidiwch â chael eich twyllo gan ddiben diniwed presennol yr adeilad. Dyma'r trydydd adeilad ar ein taith sy'n gysylltiedig â throsedd a chosb. Adeiladwyd y tŷ ym 1785 i gadw cofnodion Brawdlys Mawr, a daeth yn lys yn ei rinwedd ei hun a chafodd y cyntedd trawiadol gyda'r colofnau Dorig eu hychwanegu yn y 1860au. Y tro diwethaf i'r llys gyfarfod yma oedd ym 1974, ond parhaodd fel Llys Ynadon tan 1986. Erbyn hyn y ddedfryd waethaf sy'n cael ei rhoi yw dirwy am ddychwelyd llyfrau'r llyfrgell yn hwyr.

**Trowch i'r dde ar ddiwedd Stryd y Llys – neu i'r chwith (heibio'r siop lle cafodd anthem genedlaethol Cymru ei hargraffu am y tro cyntaf ym 1860) i gwtogi'r daith.**



# 6 Ruthin Library

Don't be fooled by this building's current blameless purpose as a library. This is the third building on our tour associated with crime and punishment. Built in 1785 to house records of the Court of Great Assize, it became a courthouse in its own right and the imposing portico with Doric columns was added in the 1860s. The court last sat here in 1974 but it continued as a Magistrates Court until 1986. Nowadays the stiffest sentence handed down is a fine for overdue library books.

**Turn right at the end of Record Street – or left (past the shop where the Welsh national anthem was first printed in 1860) to shorten the trail.**

# 7 Canolfan Grefft Rhuthun

**Ar ddiwedd Stryd y Ffynnon, croeswch drosodd i'r rhes o fythynnod rheilffordd brics coch i ddilyn Rhodfa'r Orsaf. Croeswch y gylchfan i mewn i Lôn Parcwr, trowch i'r chwith i mewn i faes parcio'r ganolfan grefftau a mynd i mewn trwy'r cwrt.**

Canolfan Grefft Rhuthun yw'r oriel gelf gymhwysol bwysicaf yng Nghymru. Mae'r waliau cerrig a tho sinc drosto yn adlais o Fryniau Clwyd sydd yn eu hunain yn gelfyddydwaith. Y tu mewn mae tair oriel, stiwdios gwneuthurwyr, siop a chaffi yn ogystal â rhaglen brysur o sgyrsiau, digwyddiadau a gweithdai. Felly, os ydych wedi'ch ysbrydoli gan y grefft, gallwch ddod yn ôl a gwneud crefft eich hun.

www.canolfangrefftrhuthun.org.uk



# 7 Ruthin Craft Centre

**At the end of Well Street, cross over to the row of red-brick railway cottages to follow Station Walk. Cross the roundabout into Lôn Parcwr, turn left into the craft centre car park and enter through the courtyard.**

This is the most important applied arts centre in Wales. The cast stone walls and jagged zinc roof echoing the surrounding Clwydian Range are works of art in themselves. Inside are three galleries, makers' studios, a shop and a café plus a busy programme of talks, events and workshops. So if you're inspired by the craft, you can come back and make your own.

www.ruthincraftcentre.org.uk

# 8 Neuaddau Marchnad a Thref

**Gadewch y ganolfan grefftau drwy'r drws ffrynt, croeswch y brif ffordd i mewn i Troed y Rhiw a throi i'r dde ar Stryd y Farchnad.**

Tan 1991 byddai ffermwyr lleol yn heidio i'r dref ar gyfer y farchnad da byw lle mae maes parcio Stryd y Farchnad wedi'i leoli. Erbyn hyn maent yn cwrdd tu allan i'r dref. Ond mae'r Neuadd Farchnad dan do gerllaw wedi cael bywyd newydd fel marchnad bwtîc ar gyfer crefftwyr a masnachwyr moesegol, "archfarchnad cymdeithasol" a chaffi lles. Mae'r Neuadd Farchnad a Neuadd y Dref gerllaw, yn esiampl wych o adeilad dinesig mewn arddull Fictoraidd Gothig.



# 8 Town and Market Halls


**Leave the craft centre through the front door, cross the main road into Troed y Rhiw and turn right into Market Street.**

Until 1991 local farmers would pour into town for a livestock market where the Market Street car park stands. Now they meet out of town. But the indoor Market Hall opposite has been reborn as a boutique market for artisans and ethical traders, "social supermarket" and wellbeing café. The Market Hall and adjacent Town Hall together make a fine example of a civic building in the High Victorian Gothic style.

# 9 Eglwys Sant Pedr

**Ar Sgwâr Sant Pedr, trowch i'r dde heibio'r Myddelton Grill ar y Sgwâr gyda'r ffenestri dormer sef "Saith Llygad Rhuthun". Ewch drwy'r giatiau haearn, a grëwyd gan y brodyr Davies ym 1727, ac i mewn i fynwent yr eglwys.**

Adeiladwyd Eglwys Sant Pedr yn 1310, ac mae'n un o eglwysi nodweddiadol Sir Ddinbych sydd â dau gorff adeiladol yn perthyn iddo. Ychwanegwyd y toeau pren hyfryd sydd wedi'u haddurno yn gynnar yn y 16eg ganrif, ond codwyd y meindwr tal, sy'n ymddangos i'ch ddilyn chi wrth i chi gerdded o amgylch y dref, o ganlyniad i "adferiad" Fictoraidd. Mewn cornel dawel ger yr eglwys fe ddowch o hyd i'r elusendai a waddolwyd gan Gabriel Goodman ym 1590.



# 9 St Peter's Church

**At St Peter's Square, turn right past 17th-century Myddelton Grill on the Square with its dormer windows known as the "Seven Eyes of Ruthin". Go through the wrought-iron gates, made by the Davies brothers in 1727, into the churchyard.**

St Peter's Church, built in 1310, is one of Denbighshire's characteristic twin-naved churches. The lovely decorated timber roofs were added in the early 16th century but the tall spire, which seems to follow you as you walk around the town, was the result of a Victorian "restoration". In a quiet corner of the church precinct you'll find the almshouses endowed by the well-named Gabriel Goodman in 1590.

# 10 Coflech Tom Pryce

Mae pawb yn hoffi clywed stori am fachgen lleol yn gwneud yn dda iddo'i hun – yn enwedig rhywun sydd byth yn anghofio'i wreiddiau. Roedd Rhuthun yng ngwythiennau Thomas Maldwyn Pryce. Un o'r gyrwyr rasio mwyaf talentog ei genhedlaeth, a chafodd ei ladd mewn ras pan redodd marshal diogelwch o flaen ei gar ym 1977 yn y Grand Prix yn Ne Affrica. Roedd Tom yn 27 mlwydd oed pan laddwyd ef. Cafodd y cerfwedd efydd gwych gan y cerflunydd lleol Neil Dalrymple ei ddadorchuddio ar 11 Mehefin 2009. Byddai wedi bod yn ben-blwydd ar Tom yn 60 oed.

**Trowch i'r chwith i Mill Street gyferbyn â Charchar Rhuthun, cerddwch heibio'r felin o'r 13eg ganrif a throwch i'r dde wrth y pyst i ddychwelyd i faes parcio Cae Ddôl.**



# 10 Tom Pryce Memorial

Everybody loves a local boy made good – especially one who never forgets his roots. Thomas Maldwyn Pryce was Ruthin through and through. One of the most talented racing drivers of his generation, 27-year-old Tom was killed when a safety marshal ran in front of his car at the 1977 South African Grand Prix. This magnificent bronze relief by local sculptor Neil Dalrymple was unveiled on 11 June 2009. It would have been Tom's 60th birthday.

**Turn left into Mill Street opposite Ruthin Gaol, walk past the 13th century mill and turn right at the bollards to return to Cae Ddôl car park.**